## Cadeirydd y Porthladd Rhydd Celtaidd

### Proffil o'r Rôl

Mae'r Porthladd Rhydd Celtaidd yn brosiect cyffrous a fydd yn datgloi'r cyfleoedd ehangaf bosibl i Gymru drwy gyflymu arloesedd ac annog buddsoddiad sylweddol, wrth olrhain sgiliau modern ar gyfer diwydiannau gwyrdd newydd a datgarboneiddio ar lefel genedlaethol. Rydym yn gonsortiwm cyhoeddus-preifat y mae ei bartneriaid yn cynnwys Porthladdoedd Prydeinig Cysylltiedig (ABP), Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Penfro a Phorthladd Aberdaugleddau. Gyda safleoedd datblygu ledled Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro, byddwn yn cefnogi datblygiad miloedd o swyddi gwyrdd newydd, yn cynhyrchu £5.5 biliwn o fuddsoddiad newydd, ac yn cyflymu'r broses o gyflwyno gwynt alltraeth arnofiol, yr economi hydrogen a chynhyrchu tanwydd cynaliadwy.

Yn dilyn ein corffori fel cwmni, rydym yn chwilio am Gadeirydd am dymor cychwynnol o dair blynedd. Gan arwain ein bwrdd, sy'n cynnwys cyfarwyddwyr o'r sectorau cyhoeddus a phreifat, ynghyd â gweithio gyda'n Prif Weithredwr, sydd newydd gael ei benodi, byddwch yn sicrhau y caiff y prosiect hanfodol hwn ei gyflawni. Fel cynullydd naturiol, byddwch yn gweithio ar draws ein partneriaid, tirfeddianwyr, cadwyni cyflenwi a thu hwnt, er lles ein trigolion. Byddwch yn gweithredu fel llysgennad byd-eang a chenedlaethol dros y Porthladd Rhydd a'r rhanbarth ehangach, gan gysylltu â diwydiant a'r llywodraeth ar lwyfan cenedlaethol a rhyngwladol, yn ogystal â chymunedau lleol. Yn anad dim, byddwch yn sicrhau ein bod yn cyflawni ein hymrwymiad i sicrhau ffyniant a thwf economaidd, gan sicrhau'r gwerth mwyaf posibl o'n hasedau adeiledig a naturiol aruthrol.

Byddwch yn gyfarwyddwr gweithredol neu anweithredol profiadol gyda hanes o gyflawni pethau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, gan weithio ar draws ffiniau sefydliadol a daearyddol. Byddwch yn sicrhau y caiff y safonau uchaf eu cynnal o ran llywodraethu, a bod y bwrdd a chwmni ehangach y Porthladd Rhydd Celtaidd yn cyflenwi'r prosiect trawsnewidiol hwn. Byddwch hefyd yn rhannu ein gwerthoedd, a'n hymrwymiad i sicrhau gwell canlyniadau cymdeithasol ac economaidd i bobl ein rhanbarth, ochr yn ochr â datblygu DU lanach, wyrddach a mwy ynni-annibynnol.

**Cyfrifoldebau Allweddol**

**Arweinyddiaeth**

- Darparu arweinyddiaeth ar gyfer bwrdd y Porthladd Rhydd Celtaidd, gan hyrwyddo’r safonau uchaf o ran moeseg, uniondeb, gonestrwydd a llywodraethiant corfforaethol.

- Arwain y gwaith o ddatblygu gweledigaeth, gwerthoedd, cyfeiriad strategol a blaenoriaethau’r Porthladd Rhydd Celtaidd.

- Meithrin perthynas gref, gydweithredol gyda Phrif Weithredwr y Porthladd Rhydd Celtaidd, wrth sicrhau bod y Prif Weithredwr yn atebol am gyflawni’r strategaeth a’i hamcanion.

- Dangos arweinyddiaeth bersonol weledol, sy’n foesegol, yn dosturiol a chynhwysol, trwy fodelu’r safonau uchaf o safbwynt ymddygiad personol.

- Cadeirio cyfarfodydd y bwrdd yn effeithiol, gan gyfarwyddo a rheoli penderfyniadau’r bwrdd, monitro’r gwaith o roi penderfyniadau’r bwrdd ar waith mewn modd amserol, ynghyd â sicrhau y caiff y safonau uchaf o ran llywodraethiant a chydymffurfiaeth eu cynnal bob amser.

- Arwain a chefnogi dynameg adeiladol mewn cyfarfodydd, sy’n galluogi, ac yn annog, cyfraniadau gan bawb.

**Llywodraethiant**

- Sicrhau safonau ardderchog o ran llywodraethiant corfforaethol sy’n adlewyrchu Egwyddorion Nolan ar gyfer bywyd cyhoeddus, gan weithredu gyda thryloywder ac atebolrwydd.

- Sicrhau bod y bwrdd yn nodi’r risgiau allweddol a wynebir gan Gwmni’r Porthladd Rhydd Celtaidd o ran rhoi ei strategaeth ar waith; ei fod yn penderfynu beth yw ei ddull gweithio a’i agwedd tuag at ddarparu goruchwyliaeth effeithiol o’r risgiau hynny, ac yn sicrhau y rhoddir mesurau rheoli darbodus ar waith i gynorthwyo i reoli risg.

- Sicrhau bod mesurau rheoli effeithiol ar waith o safbwynt cynllunio, rheoli ac ariannol, ac er mwyn gallu cyflawni’r holl ofynion cyfreithiol a statudol perthnasol.

**Ymgysylltu â rhanddeiliaid a’r rôl genhadol**

- Gweithredu fel cennad ar gyfer y Porthladd Rhydd Celtaidd, gan gynrychioli'r cwmni ar gyfer rhanddeiliaid allweddol ar lefel genedlaethol a rhyngwladol.

- Cynrychioli'r Porthladd Rhydd Celtaidd ar lefelau uchaf y llywodraeth, yng Nghymru a'r DU, gan ymgysylltu ag uwch weision sifil a gweinidogion gwladol.

- Hyrwyddo'r gwaith o gyflenwi buddion economaidd a chymdeithasol i Dde Orllewin Cymru trwy gyfrwng y Porthladd Rhydd.

- Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys cyrff rheoleiddio, ein partneriaid, a thirfeddianwyr, er mwyn sicrhau'r gwaith o gyflawni ein strategaeth a'n cynllun busnes blynyddol.

**Manyleb y person**

- Profiad sylweddol fel cyfarwyddwr gweithredol neu anweithredol, gyda hanes o weithredu ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat.

- Profiad blaenorol fel Cadeirydd ar fyrddau neu bwyllgorau sy'n gweithredu ar lefel uwch mewn amgylchedd cymhleth, heriol a chanddo broffil uchel.

- Craffter masnachol a hanes llwyddiannus o gyflawni trafodiadau neu brosiectau mawr, o'u cychwyn i'w cwblhau.

- Ymrwymiad i adfywio a/neu dwf economaidd, a thystiolaeth o hynny trwy gysylltiad blaenorol â'r gwaith o drawsnewid lle neu ranbarth.

- Dealltwriaeth drylwyr o reolaeth ariannol, a'r gallu i ddarllen a deall cyfrifon rheoli.

- Sgiliau partneriaeth cryf, gydag arddull a dulliau gweithio cydweithredol.

- Sgiliau eithriadol o ran meithrin sgiliau, a ddangosir trwy hanes cryf o negodi canlyniadau lle mae pawb ar eu hennill.

- Hygrededd personol ar bob lefel o'r llywodraeth a'r sector preifat.

- Ymrwymiad i Dde Orllewin Cymru.

- Ymrwymiad y gellir ei ddangos i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

- Dealltwriaeth glir o Egwyddorion Nolan ar gyfer bywyd cyhoeddus, ynghyd â'r gallu i ddangos y lefelau uchaf o uniondeb a gonestrwydd.